

## Llwyth Gwaith

Medi 2018

Yn 2017 gofynnwyd i Colegau Cymru (CC) (y corff sy'n gweithredu ar ran Prifathrawon y coleg) gyfarfod â ni er mwyn diwygio'r Cytundeb Llwyth Gwaith Cenedlaethol, gan bennu cost newidiadau a chydweithio i annog Llywodraeth Cymru i ariannu'r newidiadau sydd eu hangen, yn ein barn ni, i ddiogelu ansawdd ac iechyd a lles ein haelodaeth.

Ym mis Chwefror 2018, cytunodd CC i drafod y llwyth gwaith pe bai'r cyd-undebau llafur AB yn tynnu'r anghydfod yn ôl. Gwnaethom atal yr anghydfod ac mae CC bellach wedi torri'r cytundeb hwnnw. Maent yn gwrthod siarad â ni nes bod yr anghydfod cyflog yn cael ei ddatrys, felly rydym wedi penderfynu cynnal pleidlais dros weithredu diwydiannol. **Yn sym!; maent yn gwrthod siarad amdano, oni bai eich bod CHI yn rhoi pwysau arnynt drwy bleidleisio O BLAID STREICIO yn y bleidlais sydd i ddod.**

Hefyd, mae anghydfod rhyngom ynghylch tâl (gweler cylchlythyr ar wahân y Cyd-undebau Llafur) ac mae'r Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU) wedi penderfynu holi barn aelodau am streicio dros dâl a llwyth gwaith. Bydd y bleidlais dros anghydfod ynghylch llwyth gwaith yn cyd-fynd â'r bleidlais dros yr anghydfod ynghylch tâl a byddwch yn cael dau bapur pleidleisio ar wahân yn yr un amlen. Bydd y bleidlais **ar agor** ddydd Llun 24 Medi ac yn **cau** am 12:00pm ddydd Gwener 19 Hydref. Bydd y ddau bapur pleidleisio yn cyrraedd yn yr un amlen.

### **Pleidlais drwy'r post fydd hon - Ewch i adran My UCU ar wefan UCU i gadarnhau bod eich manylion yn gywir.**

Os na chewch eich papur pleidleisio erbyn dydd Llun 1 Hydref, cysylltwch â swyddfa undeb UCU Cymru drwy e-bostio [kwilliams@ucu.org.uk](mailto:kwilliams@ucu.org.uk) neu ffonio 01656 721951.

**Mae bellach yn ofynnol yn ôl y gyfraith bod undebau'n sicrhau bod o leiaf 50% o bobl yn pleidleisio. Os methwn â chael 50% o bobl i bleidleisio ac os na chawn bleidlais derfynol O BLAID, bydd y bleidlais yn ddi-rym ac ni fydd fawr o gyfle gan eich undeb i berswadio CC i drafod.**

Felly mae'n hollbwysig eich bod yn cymryd yr amser i bleidleisio.

Os cawn bleidlais o blaidd – mae'n bosibl **NA FYDD** angen i ni streicio, gan y gallai bygwth streic AB cenedlaethol fod yn ddigon i berswadio'r coleau a'r gwleidyddion i gymryd y camau i ddatrys yr anghydfod ynghylch cyflog a llwyth gwaith.

### **Gweithredu Diwydiannol**

Ein bwriad ar hyn o bryd, gan dybio bod aelodau'n cefnogi'r penderfyniadau, yw streicio dros dair wythnos cyn gwyliau'r Nadolig. Caiff y dyddiadau eu cyhoeddi maes o law.

Wythnos Un 1 diwrnod o streic

Wythnos Dau 2 ddiwrnod o streic

Wythnos Tri 3 diwrnod o streic

**Rydym yn argymhell eich bod yn pleidleisio O BLAID ar y ddau bapur pleidleisio.**

## Workload

September 2018

In 2017 we asked Colegau Cymru (CC) (the body acting on behalf of the college Principals) to sit down with us and work on amending the National Workload Agreement, costing the changes and seeking jointly to get the Welsh Government to fund the changes, we believe are needed to protect quality and the health and well-being of our membership.

In February 2018 CC agreed to negotiate on workload if the FE joint trade unions withdrew the dispute. We suspended the dispute and CC have now reneged on that agreement. They are refusing to talk to us until the pay dispute is resolved so we have decided to run an industrial action ballot. **To put it bluntly; they won't talk about it, unless YOU make them by voting YES in the forthcoming strike ballot.**

We are also in dispute on pay (see separate Joint Trade Union newsletter) and UCU have decided to ballot members for strike action on both pay and workload. The workload dispute ballot will coincide with the pay dispute ballot and you will receive two separate ballot papers in the same envelope. The ballot will **open** on Monday 24<sup>th</sup> September and **close** at noon on Friday 19<sup>th</sup> October. Both ballot papers will arrive in the same envelope.

**It will be a postal ballot - Please visit the My UCU section of the UCU website to check that your details are up to date.**

If you do not receive your ballot paper by Monday 1<sup>st</sup> October please contact the UCU Wales union office by emailing [kwilliams@ucu.org.uk](mailto:kwilliams@ucu.org.uk) or phoning 01656 721951.

**The law now requires unions to obtain at least a 50% turnout in the ballot. If we fail to achieve a 50% turnout and a decisive YES vote, the ballot will be null and void and your union will have very little chance of persuading CC to come to the negotiating table.**

So it is vitally important that you actually take the time to vote.

If we get a yes vote – we may **NOT** need to take strike action as the threat of a national FE strike could be enough to persuade the colleges and the politicians to take steps to resolve the dispute on pay and on workload.

### Industrial action

It is currently our intention, assuming members support the decisions, to take escalating strike action over three weeks before Christmas holidays and dates will be announced in due course.

Week One 1 day of strike action

Week Two 2 days of strike action

Week three 3 days of strike action

**We are recommending that you vote YES on both ballot papers.**